

2010 Rhif 10

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**CYFARWYDDIADAU I
FYRDDAU IECHYD LLEOL
AC YMDDIRIEDOLAETHAU
GIG YNG NGHYMRU 2010**

Gwnaed 10 Mawrth 2010

Yn dod i rym 11 Mawrth 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(3), 19(1), 174(10) a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn—

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 11 Mawrth 2010 a byddant yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “y Prif Gyfarwyddiadau” (“*the Principal Directions*”) yw Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ynghylch Trefniadau i Gyllido Canllawiau Gwerthuso Technoleg oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) dyddiedig 23 Hydref 2003, fel y'u diwygiwyd gan y Cyfarwyddiadau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru dyddiedig 23 Rhagfyr 2003, 4 Mawrth 2004, 8 Chwefror 2005, 3 Ebrill 2006, 25 Hydref 2006 a 19 Mawrth 2009.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau.

Diwygio cyfarwyddyd 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau

2.—(1) Ym mharagraff 3(2) o'r Prif Gyfarwyddiadau (Canllawiau Gwerthuso Technoleg Esempt), dileer is-baragraff (h).

(2) Ym mharagraff 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau (Canllawiau Gwerthuso Technoleg Esempt) ar ddiwedd paragraff 3(1)(C) mewnosoder y canlynol fel paragraff 3(1)(Ch)—

“O ran Canllawiau Gwerthuso Technoleg (Rhif 164) ar ddefnyddio ffebwcstodad i reoli hyperwricemia cronig mewn pobl â'r gymalwst dyddiedig 17 Rhagfyr 2008, mae paragraff 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys ac eithrio y caiff y geiriau “11 Mehefin 2010” gael eu rhoi yn lle'r geiriau “ddyddiad nad yw'n hwyrach na thri mis o ddyddiad y Canllawiau Gwerthuso Technoleg hynny”.”.

Llofnodwyd

Dyddiad 10 Mawrth 2010

Edwina Hart AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru